# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn
# 30 Medi 1999 (sesiwn y bore)

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Tâl yn ôl Perfformiad i Athrawon

**C4 Jonathan Morgan:** Sut y bydd cyflwyno tâl i athrawon yn ôl perfformiad yn cyfrannu at ddileu dieithrwch cymdeithasol? (OAQ1128)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Am ddegawdau bu'n rhaid i'r athrawon gorau adael yr ystafell ddosbarth i gael dyrchafiad. Bydd gwobrwyo ein hathrawon mwyaf llwyddiannus am aros yn y dosbarth yn gwella safon addysg ac yn help i ymladd dieithrwch cymdeithasol.

### Ymgyrch yn y Cyfryngau (Etholiadau'r Cynulliad)

**C5 David Davies:** Pryd y gwnaiff y Prif Ysgrifennydd gyhoeddi manylion am yr asesiad o ymgyrch ei adrannau yn y cyfryngau yn ystod y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad? (OAQ1123)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae adroddiad NOP Research Group Limited wedi dod i law erbyn hyn ac mae dan ystyriaeth. Gobeithiaf ei gyhoeddi'n fuan iawn.

### Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Pwerau)

**C6 Janet Ryder:** Yn dilyn datganiad y Prif Ysgrifennydd wrth ateb cwestiwn llafar ar 14/09/99 y byddai Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dirwyn i ben yn y dyfodol agos, a wnaiff amlinellu ei gynlluniau ar gyfer trosglwyddo pwerau gweddilliol, a'r corff y mae'n bwriadu eu trosglwyddo iddo? (OAQ1140VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi y bydd asedau ac ymrwymiadau'r Gorfforaeth Datblygu yn cael eu trosglwyddo fel a ganlyn:

- asedau ac ymrwymiadau nad oes a wnelont â datblygu (mannau agored, ffyrdd, ayb.) yn ardal Cyngor Sir Caerdydd i'r Cyngor hwnnw;
- asedau ac ymrwymiadau cyffelyb yn ardal Cyngor Bro Morgannwg i'r Cyngor hwnnw;
- yr asedau a'r ymrwymiadau datblygu ynghyd â PFI Rhodfa Bute i Awdurdod Datblygu Cymru;
- perchnogaeth a rheolaeth y morglawdd, yr harbwr allanol a'r bae mewnol i awdurdod harbwr; a Gwastadeddau Gwent i gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Ym mhob achos bydd eu pwerau presennol yn ddigonol ar y cyfan a bydd pwerau'r Gorfforaeth Datblygu yn gorffen pan gaiff ei dirwyn i ben.

## Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C7 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd ar gyfer datblygu Canolfan Ewropeaidd Cymru yn y dyfodol? (OAQ1164VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caiff Canolfan Ewropeaidd Cymru ei rhedeg gan bartneriaeth o sefydliadau. Mae yna achos da o blaid cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel aelod o'r bartneriaeth honno gan mai arian cyhoeddus sy'n mynd iddi yn bennaf ac mae angen inni gryfhau llais Cymru yn Ewrop. Yr wyf yn ymchwilio i'r posibiliadau hyn a byddaf yn gwneud cynigion maes o law.

## Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau

**C8 David Davies:** Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu llofnodi ail Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau? (OAQ1124)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf Mr Davies at yr ateb a roddais ar 22 Medi i'w gwestiwn ysgrifenedig WAQ925VB, y gwelir copi ohono isod.

**David Davies:** Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu llofnodi ail Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau? (WAQ925VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caiff Gorchmynion Trosglwyddo, dan adran 22 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, eu gwneud gan y Frenhines ar sail cyngor yr Ysgrifennydd Gwladol a chyda chymeradwyaeth dau Dŷ'r Senedd. Gwnaed y Gorchymyn cyntaf o'r fath ym mis Mawrth eleni gan drosglwyddo'r cyfan bron o swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad. Ers hynny, nodwyd rhai bylchau a diffygion drafftio. Disgwyliaf i Lywodraeth y DU gyflwyno ail Orchymyn, llawer byrrach, i gywiro'r rhain pan ddychwela'r Senedd ym mis Hydref. Gan y bydd y Gorchymyn hwn yn diwygio'r un cyntaf, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn Sesiwn Llawn dan adran 22(6) Deddf Llywodraeth Cymru.

## Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio

**C9 Huw Lewis:** Pa asesiad y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud o effaith debygol cyflwyno'r Credyd Treth ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio ar Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i leihau tlodi ymhlith plant? (OAQ1175VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn help mawr yng Nghymru tuag at gyflawni addewid y Llywodraeth i ddileu tlodi ymysg plant o fewn dau ddegawd. Yn 2000-01, y flwyddyn gyntaf lawn pryd y bydd y cynllun ar waith, mae Cyllid y Wlad yn amcangyfrif y bydd tua 64,000 o deuluoedd yng Nghymru yn derbyn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio, cynnydd o 27,000 o'r 37,000 o deuluoedd sy'n cael Credyd Teulu ar hyn o bryd.

## Cyllid Llywodraeth Leol

**C10 Jane Davidson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd adolygu'r trefniadau ar gyfer dosbarthu cyllid llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod amddifadedd ac anghydraddoldeb iechyd yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddyrannu arian i awdurdodau lleol? (OAQ1126)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cytunaf y dylai hyn ddigwydd, a dyna pam y bu inni gomisiynu gwaith ar ffactorau anghydraddoldeb i oleuo gwaith y Cynulliad. Mae nifer o ddangosyddion amddifadedd ac iechyd wedi eu cynnwys yn y fformiwla erbyn hyn. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth i nifer yr unigolion sy'n derbyn cymhorthdal incwm, yn hawlio budd-dâl diweithdra neu sydd â salwch hirdymor sy'n cyfyngu arnynt. Cynhyrchwyd rhestr lawn gan yr Adran Ystadegau yn gynharach eleni ac mae copi ar gael drwy'r Llyfrgell ('A Look behind the Standard Spending Assessments' cyfeirnod SDB 35/99).

Mae gwaith yn deillio o 23 argymhelliad yr adolygiad annibynnol i'r ffordd y cyfrifir yr asesiadau gwariant safonol eisoes ar y gweill. Bydd y fformiwla ar gyfer 2001-2002 yn cynnwys mesurau newydd i gydnabod y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd.

Mae'r Is-grŵp Dosbarthu yn bwrw ymlaen â rhaglen waith fanwl ac mae'n ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau eraill sy'n seiliedig ar amddifadedd gan gynnwys y rheini a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ar gyfer y cyfrifiad. Yn ogystal, mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu i ymgymryd ag adolygiad manwl o'r mynegeion amddifadedd presennol ac arfaethedig, a bydd y canlyniadau hynny hefyd yn goleuo'r gwaith ar y fformiwla.

Y cynllun yw bod yr Is-grŵp Dosbarthu i gwblhau ei waith erbyn diwedd mis Mehefin flwyddyn nesaf, ac y bydd y cynigion ar gyfer newid ar gael i'r Cynulliad cyn egwyl yr haf.

### Arian Cyfatebol Amcan 1

**C11 Michael German:** A all y Prif Ysgrifennydd ddweud pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau'r arian cyfatebol angenrheidiol ar gyfer arian Amcan 1 a phryd y bydd ymrwymiad cadarn yn cael ei wneud? (OAQ1148VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater i noddwyr prosiectau yn bennaf yw darparu arian cyfatebol. Fel y gwyddoch o'r gorau, ymdrinnir â goblygiadau cyllido statws Amcan 1 fel rhan o gylch cyllideb y Cynulliad ac adolygiad gwariant nesaf Llywodraeth y DU.

### Cyfamod Sector Gwirfoddol

**C12 Jenny Randerson:** Sawl awdurdod lleol oedd wedi cwblhau eu cyfamod sector gwirfoddol erbyn 1 Medi a pha awdurdodau lleol sy'n dal heb gyhoeddi cyfamod drafft? (OAQ1145JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y targed y cytunwyd arno gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru oedd y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru a'r sector gwirfoddol yn ei ardal yn cwblhau cyfamod lleol erbyn diwedd mis Medi eleni. Yr oedd y targed hwn yn gryn her, ond o'm hymweliadau o amgylch Cymru gwn fod pethau'n mynd rhagddynt yn dda. Yr wyf eisoes wedi bod i lansio cyfamodau yn Nhorfaen ac Abertawe. Yr oedd y man cychwyn yn amrywio llawer o ardal i ardal.

Yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol, gallai'r trafodaethau adeiladu ar seiliau partneriaeth cryf oedd yn bodoli'n barod. Mewn ardaloedd eraill, yr oedd yn rhaid wrth lawer mwy o newid, ar y ddwy ochr yn aml. Rhaid i gyhoeddi'r cyfamod gael ei weld fel cam pwysig mewn datblygu

partneriaeth waith effeithiol, yn hytrach na diben ynddo'i hun. Byddaf yn adolygu'r cynnydd gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn ystod mis Hydref.

### Rhaglen Adeiladu Ysbytai

**C13 David Melding:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd wneud ymrwymiad i leihau dieithrwch cymdeithasol drwy gyflwyno rhaglen ar gyfer adeiladu ysbytai? (OAQ1160VB) *Tynnwyd yn ôl.*

### Awdurdod Cludiant Teithwyr (y Cynulliad)

**C14 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gefnogi dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cludiant teithwyr? (OAQ1125)

**Y Prif Ysgrifennydd:** I ddechrau mae'n rhaid i'r Cynulliad wneud defnydd llawn o'r pwerau a drosglwyddwyd inni mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, y cyrff rheoleiddio a'r gweithredwyr sydd i gyd yn awyddus i weithio gyda ni. Mae'r ystyriaethau a godir wrth sefydlu awdurdod cludiant yn eang ac amrywiol a byddent yn effeithio'n sylweddol ar fecanweithiau a strwythurau ariannol a chyfundrefnol sy'n bodoli yng Nghymru yn barod, a hynny nid er gwell bob amser.

### Gwahaniaethau mewn Cyfoeth (Cymru)

**C15 John Griffiths:** Pa strategaeth gyffredinol y gellid ei dilyn er mwyn lleihau'r gwahaniaethau mewn cyfoeth yng Nghymru? (OAQ1180VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn symud nodau ac amcanion Llwybr i Ffyniant, yr agenda economaidd newydd i Gymru a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 1998, yn eu blaen. Mae'r agenda economaidd wedi gosod amcanion clir i economi Cymru: lefelau sgiliau uwch, lefelau cyflog uwch, cynnwys pawb o fewn cymdeithas, cymysgedd ddeinamig o sectorau diwydiannol, cydbwysedd priodol rhwng cwmnïau mawr a bach a mewnfuddsoddwyr a chwmnïau brodorol, cyfraddau gweithgarwch i ddynion a menywod sy'n adlewyrchu'r cyfartaledd drwy'r DU a lledaenu ffyniant yn decach ledled Cymru. Bydd y cyfleoedd a ddaw yn sgîl cyllid Amcan 1 hefyd yn ein galluogi i gymryd camau adfywio cymdeithasol ac economaidd effeithiol i helpu cymunedau yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n wynebu lefelau sylweddol o dlodi ac amddifadedd cymdeithasol.

### Arian Ychwanegol (Amaeth, NHS, Amcan 1)

**C16 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i ddenu arian ychwanegol i ddelio â'r argyfwng ym myd amaeth yng Nghymru, y diffyg yng nghyllideb yr NHS yng Nghymru, ac arian cyfatebol at ddibenion Amcan 1 Ewrop? (OAQ1165VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaed cyhoeddiad eisoes ynglŷn â'r adnoddau ychwanegol a fydd ar gael i ffermwyr Cymru. Yr ydym yn neilltuo £1.03 biliwn ychwanegol i'r NHS am y cyfnod 1999-2000 i 2001-2002, gan gynnwys cynnydd o ran arian o 7.1 y cant, canran na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, yn y flwyddyn ariannol hon. Ymdrinnir â goblygiadau cyllido statws Amcan 1 fel rhan o gylch cyllideb y Cynulliad ac adolygiad gwariant nesaf y Llywodraeth.

## Ffatrïoedd Remploy (Rhwystro eu Cau)

**C17 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am anabledd mewn perthynas â rhwystro ffatrïoedd Remploy yn Ystradgynlais a Brynaman rhag cael eu cau? (OAQ1173VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae polisi cyflogaeth yn aros yn nwylo Llywodraeth y DU sy'n arwain ar gyllido a chyflwyno rhaglenni cyflogaeth-gyda-chymorth drwy'r Gwasanaeth Cyflogi. Cyllidir Remploy yn rhannol dan y mesurau hyn.

Mae Remploy wedi cyhoeddi uno posibl rhwng tair ffatri gan gynnwys y rheini yn Ystradgynlais a Brynaman. Mae Remploy wedi pwysleisio bod y nod o gynyddu niferoedd y bobl anabl mewn cyflogaeth-gyda-chymorth yn ganolog i'w dull gweithredu strategol, sy'n fater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth gytuno arno. Mae swyddogion y Cynulliad yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn y Gwasanaeth Cyflogi am y mater hwn. Bûm yn ymddiddori'n fanwl yn y datblygiadau hyn ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn gynharach y mis hwn i danlinellu diddordeb y Cynulliad.

Mae'r trafodaethau rhwng y cwmni a'r undebau llafur yn parhau ac nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud hyd yma.